Polisi a Gweithdrefn Derbyniadau APS

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	**Polisi a Gweithdrefn Derbyniadau Athrofa Padarn Sant (APS)**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Gareth Longden, Cofrestrydd
Rhif y fersiwn:	2.1
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	21 Awst 2023
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Academaidd Athrofa Padarn Sant
Dyddiad rhoi mewn grym:	Mehefin 2023
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Mehefin 2025
Y fersiwn a ddisodlir:	Fersiwn 2
Dogfennau cysylltiedig:	Datblygwyd y polisi yn unol â'r polisïau a gweithdrefnau canlynol. Nid yw'r rhestr yn • Llawlyfrau B.Th. and M.A. • Polisi Cymorth Dysgu Athrofa Padarn Sant • Polisi Awdit Athrofa Padarn Sant • Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant • Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant • Cytundeb Dysgwyr • Polisi Diogelu Data yr Eglwys yng Nghymru • Cod y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch, Cyngor a Chanllawiau, Recriwtio a Lledaenu Mynediad. Tachwedd 2018

	• Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Galluogi Cyrhaeddiad y Myfyriwr. Tachwedd 2018 • Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch Cyngor a Chanllawiau: Pryderon, Cwynion ac Apeliadau Tachwedd 2018 • Llawlyfr Ansawdd Academaidd – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant • Dogfennau Craidd Rheoleiddiol Prifysgol Durham • Dogfennaeth Visa a Mewnfudo'r DU

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar yr Adolygiadau
1	01 August 2021	Gareth Longden, Cofrestrydd	• Drafft cyntaf
1.1	24 February 2021	Gareth Longden, Cofrestrydd	• Wedi ei ddiwygio i gynnwys ymgeiswyr i raglenni wedi ei dilysu gan Brifysgol Durham
2	13 June 2022	Gareth Longden, Cofrestrydd	• Adolygwyd yn ôl yr amserlen
2.1		Gareth Longden, Cofrestrydd	• Adolygu sgorau IELTS i raglenni a ddilysir gan Brifysgol Durham • Diweddaru gwybodaeth am weithdrefnau Achredu Dysgu Blaenorol (APL) Prifysgol Durham University • Eglurhad ar sut mae'r Achredu Dysgu Blaenorol (APL) yn cael ei gweithredu ar gyfer myfyrwyr MA. • Gwahanu adrannau yn berthnasol i geisiadau o ddysgu blaenorol ar gyfer rhaglenni israddedig a rhaglenni ôl-radd. Mae hyn er mwyn rhoi fwy o eglurdeb i fyfyrwyr.

Polisi a Gweithdrefn Derbyniadau Athrofa Padarn Sant

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Egwyddorion Allweddol
4. Y Broses Cyfrifoldebau am Geisiadau
5. Y Broses Derbyniadau
6. Derbyn Ymgeiswyr sy'n paratoi ar gyfer Gweinidogaeth Gydnabyddedig
7. Meini Prawf Dethol Cyffredinol (Pob Rhaglen)
8. Meini Prawf ar gyfer Derbyniadau (Rhaglenni Penodol)
9. Derbyniadau - Ymgeiswyr â Dysgu Blaenorol Gwybodaeth Gyffredinol
10. Ceisiadau Dysgu Blaenorol i Raglenni Israddedig
11. Ceisiadau Dysgu Blaenorol i Raglenni Ôl-radd
12. Ymgeiswyr Hŷn
13. Mynediad Gohiriedig
14. Dysgwyr Rhyngwladol
15. Oedran Mynediad
16. Ymgeiswyr gydag Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol
17. Canlyniadau'r Broses Ymgeisio
18. Newidiadau i Raglenni
19. Dod â Rhaglenni i Ben
20. Dilysu Rhaglen
21. Amgylchiadau Esgusodol Ymlaen Llaw
22. Cyfle Cyfartal
23. Marchnata a Hyrwyddo
24. Diogelu Data
25. Yr Hawl i Apelio
26. Y Broses Gwyno neu Apelio mewn perthynas â'r Penderfyniad neu'r Broses Dderbyniadau
27. Cymeradwyo ac Adolygu'r Polisi

2. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i dderbyniadau i raglenni Athrofa Padarn Sant sydd wedi'u dilysu gan brifysgol.

Mae Padarn Sant wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses derbyniadau yn hygyrch, teg, eglur a chyson ac yn darparu profiad ymgeisio o ansawdd da i bob dysgwr. At ddiben derbyn i Badarn Sant, ynghyd ag asesu gallu academaidd ymgeisydd a'u potensial i astudio a chyflawni'r dyfarniad dan sylw, mae'r Athrofa hefyd yn asesu'r canlynol:

- Cymhwystra'r ymgeisydd i fyw ac astudio yn y DU yn ystod y cwrs i gyd
- Statws ffioedd yr ymgeisydd, gan gynnwys ei gymhwystra i dderbyn Cyllid Dysgwyr, bwrsariaethau, grantiau a mathau eraill o gyllid
- Gallu Saesneg yr ymgeisydd
- Dogfennau Rheoliadau Craidd: Prifysgol Durham
- Dogfennaeth Visa a Mewnfudo'r DU

3. Egwyddorion Allweddol

Mae prosesau recriwtio, dethol a derbyniadau'r Athrofa yn cael eu llywio gan ei Datganiad Gweledigaeth: **Gwasanaethu cenhadaeth weddnewidiol Duw o gariad at Gymru drwy fod yn gymuned sy'n canolbwyntio ar ffurfiant a hyfforddiant wedi'u seilio ar genhadaeth i holl bobl Duw**.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r egwyddorion a'r prosesau a ddefnyddir ar gyfer ystyried ceisiadau i astudio yn Athrofa Padarn Sant, gan eu cysylltu â Chod Ymarfer yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ar Recriwtio, Dethol a Derbyn.[1]

Mae Padarn Sant wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl wybodaeth ar gyfer y rhai sy'n holi ac ar gyfer ymgeiswyr yn glir ac yn darparu gwybodaeth berthnasol ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus am gyrsiau. Mae'r Athrofa yn ceisio sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael i ymgeiswyr ar ei gwefan www.stpadarns.ac.uk wedi'i diweddaru. Fodd bynnag, gan y gallai deunyddiau wedi'u hargraffu fod wedi'u

[1] Cyfeirnod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Canllaw a Chynghorion: Mynediad, Recriwtio a Ehangu Mynediad. Tachwedd 2018. https://www.qaa.ac.uk/quality-code/advice-and-guidance/admissions-recruitment-and-widening-access

cyhoeddi ymhell cyn dechrau unrhyw raglen, mae'r Athrofa yn cadw'r hawl i amrywio'r cynnwys sy'n cael ei gyhoeddi, dulliau darparu neu ofynion derbyn penodol cyrsiau os yw camau o'r fath yn rhesymol ac yr ystyrir bod eu hangen. Anogir pobl sy'n gwneud ymholiadau, ymgeiswyr a'u teuluoedd i ymweld â'r campws yng Nghaerdydd neu un o'n Cymunedau Dysgu.

4. Cyfrifoldeb dros y Broses Ymgeisio

4.1 Ystyrir pob cais yn unigol, ar sail y wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflen gais a'r ddogfennaeth ategol sydd ei hangen gan Badarn Sant.

4.2 Bydd Padarn Sant yn asesu ac yn prosesu ceisiadau ar sail y wybodaeth a dderbynnir yn unig.

4.3 Mae prosesau recriwtio, dethol a derbyniadau yn cael eu rheoli gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, a fydd wedi cael ei hyfforddi ym mhob elfen o'r polisi hwn a'r gweithdrefnau derbyniadau. Mae'r ymholiadau yn cael eu trafod yn y lle cyntaf gan y Gofrestrfa.

4.3.1 Mae holl staff Padarn Sant sy'n rhan o'r broses derbyniadau yn dilyn y meini prawf a'r gweithdrefnau ar gyfer dethol yn gyson ac yn broffesiynol. Fodd bynnag, mae disgresiwn academaidd wrth ystyried yr holl wybodaeth arall sydd ar gael yn tanategu'r broses ddethol er mwyn sicrhau bod amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried a bod y broses yn un deg ar draws ystod o brofiadau ac arbenigedd.

4.3.2 Bydd ymgeiswyr ar gyfer astudiaethau a achredir gan brifysgol yn cael eu hymrestru ar y cwrs prifysgol briodol a byddant yn ddarostyngedig i reolau, rheoliadau a gweithdrefnau'r brifysgol sy'n achredu.

5. Y Broses Dderbyniadau

5.1 Dylid ceisiadau gael eu dychwelyd i Gofrestrfa Athrofa Padarn Sant

5.2 Unwaith y derbynnir cais wedi'i gwblhau gan Gofrestrfa Padarn Sant, bydd y cais yn cael ei brosesu fel a ganlyn:

5.2.1 Fel arfer, mae'r Gofrestrfa yn ceisio cwblhau'r prosesu cychwynnol ar gyfer pob cais o fewn **5 diwrnod gwaith** ac efallai y gofynnir am eirdaon bryd hynny.

5.2.2 Bydd ymgeiswyr yn cael eu cyfweld, os oes angen, naill ai yn bersonol neu ar y ffôn / fideo gan aelod o'r staff academaidd.

5.2.3 Bydd pob cais ar gyfer mynediad i raglenni israddedig yn cael eu hystyried gan y Grŵp Derbyniadau B.Th.

5.2.4 Bydd pob cais ar gyfer mynediad i raglenni ôl-radd yn cael eu hystyried gan y Grŵp Derbyniadau Ôl-radd.

5.2.5 Bydd penderfyniadau ynghylch derbyniadau yn cael ei gwneud gan y Grŵp Derbyniadau Priodol.

5.2.6 Bydd **ymgeiswyr llwyddiannus** fel arfer yn derbyn llythyr cynnig lle (gan nodi'n glir unrhyw amodau) o **fewn 5 diwrnod gwaith** yn dilyn cyfarfod y Grŵp Derbyniadau.

5.2.7 Bydd **ymgeiswyr aflwyddiannus** yn derbyn llythyr cais aflwyddiannus o fewn **5 diwrnod gwaith** yn dilyn y Cyfarfod Grŵp Derbyniadau priodol. Bydd pob ymgeisydd aflwyddiannus yn cael gwybod am ei hawl i gwyno neu apelio yn erbyn penderfyniad ar eu cais, neu am y broses.

5.2.8 Mae rhaid i ymgeiswyr gadarnhau derbyn eu lle ar y cwrs o fewn **15 diwrnod gwaith** ar dderbyn eu llythyr cynnig lle. Rhaid i'r cadarnhad o dderbyn lle gael ei gyflawni drwy ddefnyddio'r **Ffurflen Derbyn Lle** fydd yn cael ei hanfon gyda'r llythyr cynnig.

5.2.9 Wrth gwblhau'r cais, ar gyfnod cyfweliad a phan fydd llythyr cynnig lle yn cael ei hanfon, bydd dysgwyr yn cael gwybod am ei hawl i gwyno neu apelio unrhyw benderfyniad ynghylch derbyniadau ac am y broses o wneud hynny.

6. Derbyn Ymgeiswyr sy'n Paratoi ar gyfer Gweinidogaeth Gydnabyddedig

6.1 Mae ymgeiswyr sy'n paratoi ar gyfer gweinidogaeth gydnabyddedig yn cael eu derbyn i Badarn Sant ar gyfer hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth honno gyda nawdd eu Hesgob (neu awdurdod Eglwys gyfwerth), a fydd yn llofnodi ffurflen nawdd i nodi hyn. Fel arfer, bydd hyn ar gyngor y Bwrdd Dirnadaeth Daleithiol/Rhanbarthol ar ôl i'r ymgeisydd fynychu digwyddiad preswyl dirnadaeth daleithiol neu ranbarthol.

7. Meini Prawf Dethol Cyffredinol (Pob Rhaglen)

Bydd y llwybrau mynediad i bob rhaglen astudio yn cynnwys yr ystod ehangaf bosibl o feini prawf fel y gellir asesu galluoedd pob ymgeisydd yn llawn. Bydd y ffactorau canlynol, nad ydynt mewn trefn benodol, yn cael eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid gwneud cynnig i raglen benodol:

- Perfformiad blaenorol ymgeisydd mewn arholiadau cyhoeddus
- Asesiad gwrthrychol o unrhyw ffactorau a effeithiodd ar berfformiad yn y gorffennol
- Asesiad gwrthrychol o waith a/neu brofiad bywyd neu wybodaeth seiliedig ar sgiliau
- Potensial academaidd, gan gynnwys astudiaeth ddiwinyddol flaenorol
- Potensial ymgeisydd i gyflawni gofynion mynediad penodol a chyffredinol
- Gallu ymgeisydd i elwa ar y rhaglen astudio arfaethedig
- Gallu'r ymgeisydd i gwblhau deilliannau dysgu'r rhaglen arfaethedig
- Dealltwriaeth yr ymgeisydd o'r rhaglen y gwnaed cais amdani
- Dealltwriaeth o nodau ac ethos Padarn Sant a derbyniad ohonynt
- Sylwadau geirdaon yr ymgeisydd ynghylch pa mor addas ydynt ar gyfer y rhaglen astudio (gan gynnwys addasrwydd ar gyfer lleoliadau)
- Pa mor briodol yw'r cais yn ôl y meini prawf cymhwystra
- Geirdaon boddhaol yn ôl y gofyn
- Y gallu i dalu'r ffioedd

7.1 Er mwyn i Badarn Sant fod yn sicr bod y meini prawf derbyniadau wedi'u bodloni, bydd asesiad yn cael ei wneud ar sail y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y ffurflen gais, trawsgrifiadau a thystysgrifau cymwysterau, cyfweliad personol (ar gampws neu ar y ffôn / fideo) a'r geirdaon a ddarparwyd.

7.2 Bydd Padarn Sant yn darparu mynediad i addysg uwch i'r ystod ehangaf o gyfranogwyr o fewn ei bolisi o ehangu mynediad a chyfranogiad a chyfle cyfartal.

7.3 Mae hyn yn golygu y bydd pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn gyfan gwbl ar sail ei rinweddau, ei alluoedd a'i botensial i lwyddo yn y cwrs o'i ddewis. Bydd hyn yn cael ei wneud o fewn fframwaith a bennir gan bolisïau a gweithdrefnau'r Athrofa, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag addasrwydd ar gyfer ymarfer ac

ymgeiswyr yn datgan eu hanes troseddol.

7.4 Mae gan y Grwpiau Derbyniadau, yr hawl i ystyried derbyn ymgeiswyr y mae profiad yn gwneud iawn am eu diffyg cymwysterau academaidd.

7.5 Cynigir pob lle yn unol â'r polisi hwn.

7.6 Bydd unrhyw newid sylweddol i raglen sy'n cael ei wneud rhwng adeg y cynnig a chwblhau'r cofrestriad yn cael ei hysbysu i ymgeiswyr a byddant yn cael clywed am yr opsiynau sydd ar gael cyn gynted â phosibl.

7.7 Gofynion Iaith: Cyffredinol

7.7.1 Mae Athrofa Padarn Sant yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg.

7.8 Gofynion Iaith: Rhaglen Benodol

7.8.1 Ar gyfer ein rhaglenni **Israddedig**, mae sgôr IELTS o 6.0, gydag o leiaf 6.0 ym mhob categori yn ofynnol lle nad yw gwlad enedigol ymgeisydd wedi'i rhestru gan Lywodraeth y DU fel gwlad lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg.

7.8.2 Ar gyfer ein rhaglen **Gradd Meistr**, mae sgôr IELTS o 7.0, gydag o leiaf 6.5 ym mhob categori yn ofynnol lle nad yw gwlad enedigol ymgeisydd wedi'i rhestru gan Lywodraeth y DU fel gwlad lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg.

7.8.3 Ar gyfer ein rhaglenni **Ymchwil Ôl-radd** mae sgôr IELTS o 7.0, gydag dim categori yn llai na 6.5 yn ofynnol lle nad yw gwlad enedigol ymgeisydd wedi'i rhestru gan Lywodraeth y DU fel gwlad lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg.

7.9 Ar hyn o bryd, nid yw Padarn Sant yn sefydliad nawdd ar gyfer ymgeiswyr Visa Lefel 4.

8. Meini Prawf ar gyfer Derbyniadau (Rhaglenni Penodol)

Yn ogystal â meini prawf dethol cyffredinol yr adran flaenorol, bydd Bwrdd Academaidd Padarn Sant yn pennu meini prawf penodol ar gyfer pob rhaglen. Bydd y meini prawf penodol hyn ar gael ar wefan Athrofa Padarn Sant.

8.1 Bydd ymgeiswyr gyda chymwysterau o gyd-destunau addysgol eraill y tu allan i Ewrop yn cael eu hystyried ar sail achos, gan ddefnyddio trawsgrifiadau a

samplau o waith yn ôl yr angen. Bydd samplau o waith a thrawsgrifiadau yn cael eu hasesu gan staff academaidd Padarn Sant a fydd yn defnyddio eu profiad o addysgu dysgwyr eraill o gyd-destunau tebyg, a'u profiad addysgu rhyngwladol eu hunain i asesu addasrwydd y dysgwr i gyflawni'r rhaglen.

8.2 Mewn rhai achosion, lle nad yw ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion academaidd yn sgil amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd darn o waith ysgrifenedig yn cael ei osod i asesu eu haddasrwydd academaidd ar gyfer y cwrs y maent wedi ymgeisio amdano. Efallai y bydd Padarn Sant yn penderfynu bod angen i'r ymgeisydd wneud gwaith pellach i gyrraedd y safon ofynnol cyn dechrau unrhyw Raglen astudio.

9. Derbyniadau – Ymgeiswyr â Dysgu Blaenorol - Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Padarn Sant yn derbyn ceisiadau ar sail Dysgu Trwyddedig Blaenorol a Dysgu drwy Brofiad Blaenorol ac mae hwn yn nodwedd safonol a phwysig o'i phroses derbyniadau. Dylai'r holl staff â chyfrifoldebau am recriwtio a derbyniadau yn cadw llygad ar ddatblygiadau rhyngwladol a chenedlaethol.[2]

Darperir canllaw i fyfyrwyr am geisiadau ar gyfer Dysgu Blaenorol fel rhan o'r pecyn ymgeisio i fyfyrwyr newydd.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth:

- Deallir mai Dysgu ardystiedig yw dysgu sydd wedi ei gydnabod yn flaenorol gan ddarparwr addysg, sydd wedi ei ardystio yn ffurfiol, a'i hasesu a'i gydnabod gan ddyfarniad neu gredyd gan Athrofa Padarn Sant.

- Deallir mai Profiad Dysgu yw dysgu sydd wedi ei gwblhau drwy brofiadau tu allan i addysg ffurfiol a systemau hyfforddi. Yn aml mae'r dysgu sy'n gysylltiedig â'r gweithle. Yn aml iawn mae'n wahanol i ddysgu ffurfiol gan ei fod anffurfiol ac yn medru bod yn fwy personol/ Rhaid i'r dysgu fod ar lefel cydradd i'r hyn a geir yn y modiwlau a gynigir ar ein rhaglenni ac mae rhaid i chi fod yn medru rhoi tystiolaeth o ddysgu. Caiff hynny ei wneud fel arfer drwy gyflwyno portffolio o dystiolaeth.

[2] Cyfeirnod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Canllaw a Chynghorion: Mynediad, Recriwtio a Ehangu Mynediad. Tachwedd 2018. Egwyddorion Arweiniol 5 a 6.

Egwyddorion sy'n sail i geisiadau o Ddysgu Blaenorol.

Credyd

System Credydau defnyddir o fewn rhaglenni addysg uwch, a dyna beth fyddwch angen ei gael er mwyn ennill gradd neu ddyfarniad arall. Bydd pob modiwl o fewn y rhaglen â gwerth credyd ac fe fyddan nhw'n mynd tuag at y dyfarniad llawn. Er enghraifft bydd angen 120 credyd lefel 4 i ennill tystysgrif israddedig, ac angen 120 credyd ar lefel 4,5 a 6 (cyfanswm o 360) i ennill gradd anrhydedd. Dyfarnir credyd ar gyfer modiwlau cyflawn yn unig ac nid ar gyfer rhan o fodiwlau.

Perthnasol

Rhaid i'r dysgu blaenorol fod yn berthnasol i'r rhaglen yr ymgeisir iddi. Bwriad y broses Dysgu Flaenorol yw i fyfyrwyr osgoi ail adrodd dysgu maen nhw wedi ei gwneud eisoes. Er enghraifft, os ydych wedi astudio Athrawiaeth Gristnogol mewn sefydliad arall, mae'n bosib eich bod eisoes wedi cyflawni'r dysgu y byddech yn ei gyflawni petaech yn astudio'r un pwnc ym Mhadarn Sant. Yn y sefyllfa hon byddai'n debygol y byddech yn derbyn credyd ar gyfer y dysgu blaenorol a ni fyddai rhaid i chi astudio'r modiwl eto. Serch hyn, os nad ydy'r dysgu blaenorol wedi ei gysylltu'n agos a modiwl ar ein rhaglen ni fyddwn yn argymell credyd ar gyfer dysgu blaenorol. Er enghraifft, os ydych wedi astudio pwnc megis Cerddoriaeth Gristnogol Gynnar mewn sefydliad arall, gan nad yw'r pwnc hynny yn cael ei gynnwys fel rhan o'n rhaglenni, ni fydd argymhelliad o gredyd dysgu blaenorol yn cael ei ddyfarnu.

Diweddar

Yn arferol, os yw cymhwyster neu gredyd yn fwy na 5 mlwydd oed, nid yw'n cael ei hystyried yn gyfredol ac ni fydd yn medru cael ei ddefnyddio tuag at gymhwyster ym Mhadarn Sant.

O.N. Mae'r prifysgolion sy'n dilysu ein rhaglenni yn defnyddio termau gwahanol i ddisgrifio'r broses sut y gall dysgu blaenorol gyfrannu at y cymwysterau sy'n cael ei hennill. Mae'r brifysgol sy'n dilysu ein rhaglen **israddedig** yn defnyddio termau Cydnabyddiaeth o Ddysgu Tystystgrifiedig Blaenorol (Recognition of Prior Certificated Learning (RPCL) a Chydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad (Recognition of Prior Experiential Learning (RPEL) Mae'r brifysgol sy'n dilysu ein rhaglenni **ôl-radd** yn defnyddio'r termau Achrediad Dysgu Tystystgrifiedig Blaenorol (Accreditation of Prior Certificated Learning (APCL) ac Achrediad o Ddysgu drwy Brofiad (Accreditation if Prior Experiential Learning (APEL).

9.1 Mae Cydnabod / Achrediad Dysgu Blaenorol yn gofyn am asesiad gofalus o'r hyn sydd wedi'i ddysgu a gall gynnwys gwaith paratoi gan yr ymgeiswyr er mwyn

iddynt allu dangos y dysgu y teimlant y maent eisoes wedi'i gyflawni. Bydd hyn pob amser yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth ategol.

9.2 Bydd ceisiadau ar gyfer Cydnabyddiaeth / Achrediad dysgu blaenorol yn cael eu hystyried yn ystod y broses ymgeisio fel arfer.

10. Ceisiadau Dysgu Blaenorol i Raglenni Israddedig

10.1 Caiff ceisiadau ar gyfer dysgu blaenorol ar gyfer rhaglenni israddedig eu hystyried gan y brifysgol sy'n dilysu'r rhaglen gan ddefnyddio polisïau a gweithdrefnau dysgu blaenorol y sefydliad hwnnw. Bydd staff Athrofa Padarn Sant yn rhoi cyngor a chymorth yn ystod y broses ymgeisio.

Rhaid i ymgeiswyr ddatgan ar yr adeg maen nhw'n ymgeisio i astudio yn Athrofa Padarn Sant os ydyn nhw'n dymuno i'w dysgu blaenorol gael ei hystyried. Nid yw fel arfer yn bosibl i ystyried ceisiadau am ddysgu blaenorol ar ôl dechrau astudio rhaglen.

10.2 Dylai ymgeiswyr fod ymwybodol ar gyfer rhaglenni **israddedig** bydd cais am **Gydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol** mae'n bosib y bydd gofyn i dalu ffi i'r brifysgol sy'n dilysu'r rhaglen. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gallai fod yn swm sylweddol: bydd ymgeiswyr yn cael gwybod y gost cyn dechrau'r gwaith gofynnol ar gyfer cais CDPB (REPL).

10.3 Cydnabyddiaeth o Ddysgu drwy brofiad Blaenorol yn unig: **Nid** yw Athrofa Padarn Sant yn cefnogi ceisiadau am fwy na 40 credyd tuag at Gydnabyddiaeth o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol ar gyfer rhaglenni israddedig a ddilysir gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant.

11. Ceisiadau Dysgu Blaenorol i Rhaglenni Ôl-radd

11.1 Caiff yr asesiad o geisiadau dysgu blaenorol ar gyfer rhaglenni ôl-radd ei gwblhau gan Athrofa Padarn Sant, gan ddefnyddio polisïau a gweithdrefnau'r brifysgol sy'n dilysu'r rhaglen. Mae penderfyniadau yn atebol i adolygiadau os oes eu hangen, a gall y brifysgol sy'n dilysu gwneud adolygiadau.

Ar gyfer ceisiadau i **raglenni ôl-radd** a ddilysir gan **Brifysgol Durham** gellir dod o hyd i wybodaeth bellach yn
http://www.durham.ac.uk/departments/academic/common-awards/policies-

processes/admissions/

- Gellir gwneud ceisiadau i bob rhaglen ôl-radd a gyflwynir gan Athrofa Padarn Sant megis Tystysgrif Ôl-radd, Diploma Ôl-radd neu MA.

- Dylai Ceisiadau Dysgu Blaenorol CDB (Application of Prior Learning APL)

  Ar gyfer rhaglenni ôl-radd cael eu cwblhau cyn i astudiaethau ddechrau.

- Rhaid i bob Cais Dysgu Blaenorol cael ei gefnogi gan dystiolaeth sy'n arddangos lle a phryd wnaeth y dysgu blaenorol ddigwydd ac ar ba ffurf.

- Dylai pob Cais Dysgu Blaenorol ar gyfer rhaglenni ôl-radd cael eu cefnogi gan broses mapio sy'n rhestri Deilliannau Dysgu Rhaglen neu Ddeilliannau Dysgu Modiwl perthnasol ac sy'n nodi pa rhai mai'r ymgeisydd yn honni iddynt gyrraedd yn ystod eu dysgu blaenorol, a pha dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno i gefnogi'r honiad.

- Caiff pob cais ar gyfer Dysgu Blaenorol i astudiaethau ôl-raddedig eu hystyried gan y Grŵp Derbyniadau Ôl-radd ac fe gaiff dysgwyr wybod canlyniad eu Cais Dysgu Blaenorol cyn dechrau eu hastudiaethau.

- Am wybodaeth ynghylch y broses Ceisiadau Dysgu Blaenorol dylai dysgwyr gysylltu yn yr achos cyntaf, Arweinydd y Rhaglen maen nhw'n astudio. Bydd Arweinydd y Rhaglen yn rhoi gwybodaeth i'r ymgeisydd ar ba mor berthnasol a chyfredol yw eu dysgu blaenorol, y dystiolaeth fydd ei hangen a'r broses mapio a'r ymarfer mapio.

11.2 Mae'r **meini prawf** a ddefnyddir i ystyried Ceisiadau Dysgu Blaenorol fel y ganlyn:

- Rhaid i Geisiadau Dysgu Blaenorol gael eu hystyried yn gyfredol. Caiff cyfredol ei ddiffinio gan Athrofa Padarn Sant fel nid fwy na pum mlynedd o fwlch rhwng adeg y dysgu blaenorol ac adeg cyflwyno'r Cais Dysgu Blaenorol.
- Ar gyfer Achrediad o Ddysgu Blaenorol a Chredyd (ADBC) APCL) mae'n arferol i fesur gwerth y dyfarniad o'r adeg y dyfarnwyd y dystysgrif neu'r dyddiad rhannu'r trawsgrifiad.
- Ar gyfer Achrediad o Ddysgu drwy Brofiad Blaenorol (ADPB) APEL caiff ei fesur naill o'r dyddiad y gwnaeth y dysgu digwydd neu drwy ddigwyddiadau neu ymarfer y mae'r ymgeisydd wedi arddangos sydd yn cadw'r dysgu yn gyfredol.
- Rhaid bod dysgu blaenorol yn cael ei hystyried yn berthnasol

11.3 Bydd Cais Dysgu Blaenorol yn cynnwys y dysgwr yn arddangos naill ai;

- Ei fod ef / hi yn gallu cwrdd â'r gofynion i gyd neu bron i gyd, o Ddeilliannau Dysgu Modiwl i bob un modiwl o'r un yr hoffai ef / hi gael eu heithrio; neu
- Ei fod ef / hi yn medru cwrdd â phob un neu ran fwyaf o Ddeilliannau Dysgu Rhaglen y cymhwyster priodol, a fyddai wedi eu hastudio yn y modiwlau y mae ef / hi yn dymuno cael eu heithrio.

11.4 Nid oes ffi ynghlwm gyda ystyried Cais Dysgu Blaenorol.

11.5 Yr uchafswm o gredyd mai Athrofa Padarn Sant yn ei ganiatáu ydy treian o'r holl raglen.

- Ar gyfer Tystysgrif Ôl-radd yr uchafswm fel arfer yw 20 Credyd o Gais Dysgu Blaenorol (APL a APCL wedi eu cyfuno).
- Ar gyfer Diploma Ôl-radd yr uchafswm yw 40 credyd o Gais Dysgu Blaenorol (APÊL a APCL wedi cyfuno).
- Ar gyfer yr MA yr uchafswm yw 60 credyd o Gais Dysgu Blaenorol (APÊL a APCL wedi eu cyfuno).

12. Ymgeiswyr Hŷn

Mae unrhyw un sy'n 21 oed ar ddechrau ei gwrs israddedig yn gymwys i gael ei ystyried fel dysgwr hŷn. Mae Padarn Sant yn cydnabod bod gan ymgeiswyr o'r fath gymhelliant cryf fel arfer. Efallai y bydd llawer heb gymwysterau priodol o fewn y system addysg ffurfiol; bydd eu ceisiadau yn cael eu hystyried ar sail achos.

13. Mynediad Gohiriedig

Mae mynediad gohiriedig yn cael ei roi yn ôl disgresiwn Arweinydd y Rhaglen. Dylai ymgeiswyr nodi eu bod am ohirio mynediad ar eu ffurflen gais. Bydd ceisiadau am fynediad gohiriedig yn cael eu hystyried hyd at y cyfnod cadarnhau. Fel arfer, mae mynediad gohiriedig yn cael ei roi am flwyddyn yn unig.

14. Dysgwyr Rhyngwladol

Bydd angen i bob ymgeisydd brofi ei hawl i astudio yn y Deyrnas Unedig cyn i gynnig o le ar y cwrs gael ei wneud. Ar hyn o bryd, nid yw Padarn Sant yn athrofa a

all noddi dysgwyr sydd angen Fisa Lefel 4, ac felly ni all dderbyn ymgeiswyr fel hyn ar hyn o bryd.

15. Oedran Mynediad

O ran dysgwyr israddedig, yr oedran mynediad disgwyliedig i Badarn Sant yw 18 oed wrth ymrestru.

16. Ymgeiswyr gydag Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r Athrofa yn gweithredu Polisi i sicrhau cyfle cyfartal a mynediad teg i bobl ag anableddau gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae Padarn Sant yn croesawu ceisiadau gan ddysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol.

16.1 Mae'r Athrofa yn ceisio sicrhau nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am recriwtio dysgwyr yn gwahaniaethu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl ag anableddau.

16.2 Bydd staff y **Gofrestrfa** yn sicrhau bod unrhyw drefniadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i alluogi ymgeisydd ag anabledd i lenwi ffurflen gais a chyflwyno dogfennaeth berthnasol a mynychu cyfweliad ffurfiol os oes angen hynny.

16.3 Nodir cymorth ar gyfer dysgwyr ag Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ym **Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Padarn Sant** a **Pholisi Cymorth Dysgu Padarn Sant**.

17. Canlyniadau'r Broses Ymgeisio

17.1 Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni gofynion mynediad y cwrs o'u dewis yn cael gwybod am gyrsiau eraill mwy priodol a gynigir gan Badarn Sant ar yr adeg y byddant yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad ynglŷn â'u dewis cychwynnol. Bydd pob ymgeisydd yn cael ei hysbysu o'i hawl i gwyno ac apelio yn erbyn penderfyniad am gais neu sut y cynhaliwyd y broses.

17.2 Bydd ymgeiswyr sydd wedi bodloni gofynion mynediad Padarn Sant yn derbyn cynnig o le ar yr amod bod llefydd gwag ar gael ar y cwrs. Bydd nifer y llefydd ar

y cwrs yn cael ei bennu gan y Bwrdd Academaidd yn flynyddol. Bydd unrhyw gynnig o le a wneir yn cynnwys manylion sut i ymateb i'r cynnig a rhagor o wybodaeth am gamau dilynol. Bydd Padarn Sant yn hysbysu ymgeiswyr o unrhyw newidiadau pwysig a wneir i raglen, ac mewn achosion lle nad yw newidiadau o'r fath yn diwallu anghenion ymgeisydd mwyach, yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddarparu opsiwn amgen addas neu'n helpu i gynnig cwrs tebyg mewn athrofa arall.

17.3 Bydd dysgwyr yn cael eu cofrestru gyda Phadarn Sant ar gyfer eu rhaglen astudio a hefyd gyda'r brifysgol dilysu berthnasol.

17.4 Bydd y wybodaeth ganlynol, ychwanegol ar gael i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu rhaglen astudio:

- Gwasanaethau academaidd a chymorth eraill sydd ar gael
- Llawlyfr perthnasol y rhaglen a rheoliadau'r rhaglen
- Polisïau a Gweithdrefnau Athrofa Padarn Sant
- Manylion llety (os yn briodol)
- Gwybodaeth ymsefydlu
- Manylion mewngofnodi Moodle
- Manylion e-bost Padarn Sant

18. Newidiadau i Raglenni

Mae Padarn Sant yn cadw'r hawl i wneud amrywiadau i gynnwys neu ddulliau darparu'r rhaglenni, os ystyrir yn rhesymol bod angen cymryd camau o'r fath.

19. Dod â Rhaglenni i Ben

19.1 Mae Padarn Sant yn cadw'r hawl i ddod â rhaglenni i ben neu eu cyfuno cyn ac ar ôl derbyn dysgwr. Mae'r amgylchiadau lle gellid dod â rhaglen i ben yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, ddiffyg galw, gweithwyr allweddol yn gadael, tynnu cyllid yn ôl neu ei ostwng a/neu newid yn y gyfraith.

19.2 Os yw rhaglen yn dod i ben, bydd Padarn Sant yn cysylltu ag ymgeiswyr cyn gynted ag y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud i egluro'r penderfyniad a chynnig cyngor am y peth gorau i'r ymgeisydd ei wneud. Gallai hyn gynnwys

cynnig dewis amgen addas neu helpu i sicrhau cwrs tebyg mewn athrofa arall.

20. Dilysu Rhaglen

20.1 Bydd angen i bob dysgwr gyflwyno dogfennaeth academaidd a phersonol wreiddiol (neu gopïau ardystiedig) wrth ymrestru cyn dechrau'r rhaglen astudio.

20.2 Staff y Gofrestrfa fydd yn dilysu dogfennaeth. Os canfyddir bod unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais yn dwyllodrus, anghyson â'r cais neu ar goll, bydd y cais yn cael ei bennu'n ddi-rym a bydd y cynnig lle yn cael ei ddileu.

20.3 Dylai dysgwyr nodi canolwyr i gefnogi eu cais. Os oes gan Badarn Sant unrhyw reswm i gredu bod y dysgwr neu'r canolwr wedi:

- Peidio â chynnwys unrhyw wybodaeth (gan gynnwys cymwysterau y mae'r dysgwr wedi'u cwblhau, unrhyw gymwysterau gyda gradd aflwyddiannus neu unrhyw gymwysterau lle disgwylir y canlyniadau o hyd)
- Rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol
- Darparu datganiad personol, neu rannau o ddatganiad personol, nad yw wedi'i ysgrifennu gan y dysgwr

Yna mae Padarn Sant yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i wirio gyda'r dysgwr a thrydydd parti os ydy dogfennaeth yn gywir neu'n gyflawn.

20.4 Mae Padarn Sant yn cadw'r hawl i ddileu cais os yw'r Athrofa, ar ôl cyflawni ei gwiriadau addas, yn credu bod unrhyw fater a godwyd dan 19.3 wedi digwydd.

21. Amgylchiadau Esgusodol Ymlaen Llaw

21.1 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd hysbysu Padarn Sant o unrhyw amgylchiadau esgusodol a allai arwain, neu sydd wedi arwain, at berfformiad academaidd blaenorol nad yw'n adlewyrchu eu gwir botensial.

21.2 Mae Padarn Sant yn cadw'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth gan drydydd parti pan fo ymgeisydd yn gofyn am esgusodi cymwysterau yn y gorffennol. Os pennir hynny'n angenrheidiol, a gyda chaniatâd yr ymgeisydd ymlaen llaw, efallai y cysylltir ag athrofa academaidd, corff arholi neu feddyg yr ymgeisydd neu drydydd parti priodol.

22. Cyfle Cyfartal

Mae'r Athrofa yn cydnabod ei chyfrifoldeb moesol a chyfreithiol i ddarparu cyfle cyfartal i bob darpar ddysgwr yn ystod yr ymchwiliad, a dilyn proses recriwtio a dethol deg, dryloyw a phroffesiynol.[3]

22.1 Bydd Padarn Sant yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu trin ar sail eu rhinweddau, eu galluoedd a'u potensial yn unig. Mae Padarn Sant wedi ymrwymo i sicrhau nad oes gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol anghyfreithlon yn digwydd. Rydym hefyd wedi ymrwymo i osgoi gwahaniaethu ar sail cefndir economaidd-gymdeithasol. Rydym yn credu bod amrywiaeth yn gyfraniad cadarnhaol at y profiad dysgu ym Mhadarn Sant (gweler **Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Padarn Sant**). [4]

22.2 Bydd Padarn Sant yn sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg drwy ddangos sensitifrwydd priodol i wahaniaethau unigol. Bydd hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau am recriwtio, dethol a derbyn ar bob lefel yn seiliedig ar feini prawf academaidd ac anacademaidd gwrthrychol sydd ar gael i ymgeiswyr cyn ymgeisio.

22.3 Bydd yr Athrofa yn sicrhau bod y staff sy'n ymwneud â derbyniadau yn ymwybodol o'r materion moesol, rheoleiddiol a chyfreithiol sy'n effeithio ar driniaeth gyfartal darpar ddysgwyr ac ymgeiswyr.[5]

22.4 Bydd yr Athrofa yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â derbyniadau ac ymrestru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi ei chenhadaeth a'i hamcanion strategol a'u bod yn parhau'n gyfoes a dilys yng ngoleuni deddfwriaeth a gofynion rheoleiddio. Bydd yr Athrofa hefyd yn sicrhau bod staff sy'n cyfrannu at recriwtio a derbyniadau, yn gymwys i gyflawni eu rôl ac yn cadw llygad ar ddeddfwriaeth a gofynion rheoleiddio.[6]

---

[3] Cyfeirnod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Canllaw a Chynghorion: Mynediad, Recriwtio a Ehangu Mynediad. Tachwedd 2018. Egwyddorion Arweiniol 5 a 6.
[4] Cyfeirnod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Canllaw a Chynghorion: Mynediad, Recriwtio a Ehangu Mynediad. Tachwedd 2018. Egwyddor Arweiniol 1.

[5] Cyfeirnod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Canllaw a Chynghorion: Annog Cyrhaeddiad Myfyrwyr. Tachwedd 2018. Egwyddorion Arweiniol 2 a 5. https://www.qaa.ac.uk/en/quality-code/advice-and-guidance/enabling-student-achievement
[6] Cyfeirnod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Canllaw a Chynghorion: Mynediad, Recriwtio a Ehangu Mynediad. Tachwedd 2018. Egwyddor Arweiniol 5.

22.5 Bydd yr Athrofa yn ceisio hyrwyddo a datblygu amrywiaeth ei chorff dysgwyr drwy:

- Drin pob ymgeisydd ar sail ei rinweddau ei hun
- Nodi potensial dysgwyr ynghyd â chydnabod cyflawniadau academaidd yn y gorffennol a chyflawniadau eraill
- Sicrhau bod pob ymgyrch a deunydd cyhoeddusrwydd, gohebiaeth a ffurflen gais yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth dysgwyr a grwpiau cais posibl, gan osgoi delweddau neu ddisgrifiadau amhriodol o'r corff dysgwyr.

23. Marchnata a Hyrwyddo

23.1 Bydd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn prosbectysau, gwefannau, taflenni neu bamffledi ar gael i ymgeiswyr cyn ac yn ystod y broses ymgeisio. Dylai'r wybodaeth hon fod yn gynhwysfawr a chynnwys y meysydd canlynol:[7]

- Y rhaglenni a gynigir, manylion strwythurau rhaglenni, hyd, modd presenoldeb a chymwysterau yn y pen draw
- Natur yr Athrofa, ei diben, moeseg, nodau ac amcanion
- Cost astudio, gan gynnwys ffioedd hyfforddi a ffioedd eraill a threfniadau talu lle mae'r rhain wedi'u pennu cyn cyhoeddi deunyddiau
- Gofynion mynediad academaidd
- Cyngor ar ffynonellau cymorth ariannol (mewnol ac allanol)
- Polisïau'r athrofa ar gyfle cyfartal
- Sut i wneud cwyn
- Rôl a gofynion unrhyw gyrff dilysu ac achredu allanol.

23.2 Ni ddylai deunydd hyrwyddo gynnwys datganiadau annheg neu gamarweiniol.

23.3 Dylai staff yr Athrofa ddilyn egwyddorion recriwtio cyfrifol. Bydd yr holl staff sy'n rhan o'r broses recriwtio yn cydweithio'n agos i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r wybodaeth a ddylai fod ar gael i ymgeiswyr.

[7] Cyfeirnod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Canllaw a Chynghorion: Mynediad, Recriwtio a Ehangu Mynediad. Tachwedd 2018. Egwyddor Arweiniol 5.

23.4 Bydd yr Athrofa yn ymateb i bob ymholiad cyn gynted â phosibl, ac fel arall o fewn **5 diwrnod gwaith** i dderbyn ymholiad.

24. Diogelu Data

24.1 Mae pob cais yn cael ei gynnwys o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Bydd y wybodaeth a ddarperir mewn ceisiadau ond yn cael ei defnyddio at ddibenion derbyniadau a bydd yn ffurfio rhan o gofnod y dysgwr os yw'n derbyn lle. Bydd data sy'n berthnasol i'r cais yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata Padarn Sant a bydd cynnydd y cais yn cael ei fonitro hyd ddechrau'r rhaglen astudio. Bydd y wybodaeth yn gyfrinachol rhwng yr ymgeisydd, Padarn Sant ac unrhyw bartïon eraill y mae'r ymgeisydd wedi cydsynio iddynt fel rhan o'r broses ymgeisio (e.e. canolwyr a'r brifysgol sy'n dilysu). Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i Badarn Sant ryddhau gwybodaeth i asiantaethau allanol sydd wedi'u hawdurdodi, fel yr heddlu neu'r Swyddfa Gartref, er mwyn atal neu ddatgelu twyll. Mae Padarn Sant yn cyflwyno enw a manylion cyswllt dysgwyr a gwybodaeth am eu cynnydd i brifysgolion dilysu at ddibenion cofnodi manylion a chynnydd yn unig. Trwy gofrestru ar gyfer rhaglen sy'n arwain at ddyfarniad a ddilysir gan brifysgol, mae'r dysgwr yn cytuno y gellir rhannu ei wybodaeth gyda'r brifysgol sy'n dilysu. Ni fydd y brifysgol sy'n dilysu yn cysylltu â'r dysgwyr oni bai bod angen penodol mewn perthynas â'i astudiaethau tuag at ddyfarniad a ddilysir.

24.2 Cyfrifoldeb y dysgwr yw diweddaru ei wybodaeth bersonol gyda Phadarn Sant a'u hysbysu o unrhyw newidiadau neu gamgymeriadau.

24.3 Yn unol â thelerau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae gan ymgeiswyr hawl cyffredinol i gael mynediad at ddata personol y mae Padarn Sant yn ei phrosesu amdanynt. Mae manylion llawn ynghylch sut i wneud cais am fynediad at ddata personol ar gael yn https://www.churchinwales.org.uk/privacy-notice/.

24.4 Am fanylion llawn Diogelu Data, gweler **Polisi Diogelu Data'r Eglwys yng Nghymru**.

25. Yr Hawl i Apelio

Mae Padarn Sant am i bob ymgeisydd gael profiad cadarnhaol wrth fynd drwy'r broses ymgeisio a bydd yn gwneud pob ymdrech i ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar ymgeiswyr a'u cefnogi i wneud dewis gwybodus o ran y cwrs gorau ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae gan ymgeiswyr nad ydynt yn fodlon â'r ffordd y trafodwyd eu cais yr hawl i wneud cwyn neu apêl anffurfiol a/neu ffurfiol yn ysgrifenedig at y Pennaeth o fewn **28 diwrnod** derbyn llythyr gwrthod ar gyfer eu cais.

26. Y Broses Gwyno neu Apelio mewn perthynas â'r Penderfyniad neu'r Broses Dderbyniadau[8]

Mae cwyn am dderbyniadau yn gŵyn am gamgymeriad gweithdrefnol, anghysondeb neu gam-weinyddu mewn polisïau neu brosesau. Yn y lle cyntaf, dylech geisio datrys unrhyw faterion yn anffurfiol gyda Phadarn Sant. Os ydych yn anfodlon gyda chanlyniad y broses anffurfiol, gallwch wneud apêl ffurfiol. Wrth wneud penderfyniadau am dderbyniadau bydd staff Athrofa Padarn Sant yn arfer dyfarniad academaidd, ni allwch wneud cwyn am benderfyniadau derbyniadau ar y sail eich bod yn anghytuno gyda'r dyfarniad academaidd.

26.1 Mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi hysbysiad ysgrifenedig o fwriad i apelio i'r Pennaeth o fewn **28 diwrnod** (heblaw bod rheswm digonol ar gyfer yr oedi) i ddyddiad y llythyr sy'n cynnwys y penderfyniad sy'n cael ei herio gan yr ymgeisydd.

26.2 Bydd y Pennaeth (neu aelod o'r staff uwch a ddynodir) yn ymchwilio mewn i'r cwyn neu'r apêl ac yn ymateb gyda'i benderfyniad o fewn **15 diwrnod** o dderbyn cwyn neu'r apêl.

26.3 Gallwch wneud cwyn os oes gennych dystiolaeth: nad oedd Athrofa Padarn Sant wedi dilyn ei pholisïau derbyniadau ei hun yn gywir, neu fod rhannau o'i pholisïau neu brosesau yn annheg, neu ddim yn ddigon clir i alluogi ymgeiswyr i ddeall y broses, neu fod yna gamgymeriad neu rywbeth ar goll yn y broses derbyniadau a effeithiodd ar y penderfyniad derbyniadau.

26.4 Ar gyfer cyrsiau ôl-radd a ddilysir gan Brifysgol Durham gall y brifysgol wneud

[8]Cyfeirnod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Canllaw a Chynghorion: Pryderon, Cwynion ac Apeliadau. Tachwedd 2018. https://www.qaa.ac.uk/en/quality-code/advice-and-guidance/concernscomplaints-and-appeals

adolygiad o'r gwyn yn dilyn cyflawni proses cwynion Athrofa Padarn Sant. Bydd y brifysgol yn archwilio os yw'r polisïau derbyniadau yn deg, yn glir ac wedi eu dilyn yn gywir a heb unrhyw wallau na gwybodaeth goll.

27. Cymeradwyo ac Adolygu'r Polisi

Bydd y polisi hwn ynghyd â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau eraill sy'n gysylltiedig â dysgwyr sy'n astudio ym Mhadarn Sant ar gael i bawb ac yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd a'u gwerthuso'n achlysurol.

27.1 Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sydd â chyfrifoldeb dros y polisi derbyniadau.

27.2 Mae gan yr Arweinwyr Rhaglen a staff y Gofrestrfa gyfrifoldeb am arolygu'r prosesau derbyniadau a sicrhau bod penderfyniadau yn cydymffurfio â rheoliadau prifysgolion sy'n dilysu a chyrff allanol eraill, lle'n briodol.

27.3 Gellir canfod y ddogfen hon ar wefan yr Athrofa: www.stpadarns.ac.uk .

27.4 Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i ymateb i unrhyw gais i ddarparu'r polisi hwn mewn fformat gwahanol.

27.5 Bydd y polisi hwn yn cael ei gynnwys yn rhaglen ymsefydlu'r staff.